Papur Briffio 3

Tlodi Plant

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Dyw pobl ddim yn hawlio prydau bwyd am ddim yn yr ysgol am fod arnyn nhw gywilydd. Roeddwn i'n gadael i bobl eraill a oedd ag arian gael mynd o'm blaen yn y ciw fel na fydden nhw'n fy ngweld i."

Gwrandewch! Plant a phobl ifanc yn siarad am dlodi
Achub y Plant

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Tlodi Plant

Mae Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi i bob plentyn yr hawl i gael safon byw sy'n ddigonol ar gyfer ei ddatblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol ac un o nodau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant yw na ddylent fod dan anfantais oherwydd tlodi.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Mae nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi gostwng o 33% i 27%, o ganlyniad i bolisi Llywodraeth y DU ar drethi a budd-daliadau, ynghyd â chynnydd mewn cyflogaeth yng Nghymru. Mae cyfran y plant yng Nghymru sy'n byw ar aelwydydd incwm isel ar yr un lefel bellach â'r cyfartaledd ym Mhrydain. Er hynny, mae cyfran yr aelwydydd sy'n gweithio sydd mewn tlodi wedi cynyddu hefyd, oherwydd cyflogau isel yng Nghymru. Mae tlodi'n dal i effeithio ar 170,000 o blant yng Nghymru a hwy sy'n profi'r lles gwaethaf yn gyffredinol yn y DU o hyd.

Gan fod tlodi plant yn torri ar draws cynifer o feysydd polisi, dim ond rhai rhaglenni gwrth-dlodi allweddol a ddisgrifir yma. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn targedu cymorth i hybu adfywiad y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae Cymorth yn darparu arian ar gyfer cymorth penodol i blant a'u teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig. Yn 2003-4, roedd Cronfa Cymorth yn bron £40 miliwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i roi £29 miliwn at Gronfa Cymorth dros y cyfnod 2005-8. Er bod arian dan raglen Cymunedau yn Gyntaf wedi darparu cyfleusterau ar gyfer plant a phobl ifanc, mae angen iddi ganolbwyntio'n fwy penodol ar gynnwys plant a phobl ifanc yn eu cymunedau. Cyhoeddir canllawiau newydd i hwyluso hynny.

Rhai o'r cynlluniau eraill a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yw nofio am ddim i blant yn y gwyliau ysgol, brecwast am ddim mewn ysgolion, datblygu Canolfannau Plant, lwfansau cynhaliaeth addysg a grantiau ar gyfer addysg uwch. Cyhoeddwyd rhaglen yn ddiweddar (Rhagori) i fynd i'r afael â thangyrhaeddiad mewn ardaloedd difreintiedig. Mae cynllun ar gyfer tocynnau bws am hanner pris i rai 16-18 mlwydd oed yn cael ei ragbrofi, gan fod trafnidiaeth yn cael effaith fawr ar addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a hamdden.

Ychydig llai na £5 miliwn a ddarparwyd ar gyfer cynlluniau sector gwirfoddol sydd â'r amcan o ddelio â digartrefedd yng Nghymru (o'i gymharu â £60 miliwn yn Lloegr a £20 miliwn yn yr Alban). Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiweddariad o'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd ym mis Tachwedd 2005 sy'n rhoi ymrwymiad i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru.

Ers 1993 bu gostyngiad sylweddol yn nifer y tai anaddas yng Nghymru, er bod Shelter Cymru yn amcangyfrif bod dros 35,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tai gwael a dros 43,000 yn byw mewn amgylchiadau gorboblog (Cyfeiriad: 'Adeiladu Dyfodol Cymru, Shelter Cymru Tachwedd 2006). Mae oddeutu 300,000 o dai yn dioddef tlodi tanwydd yng Nghymru: mwy na dwbl y nifer yn 2004.

Mae strategaeth Llywodraeth y Cynulliad yn erbyn tlodi ymhlith plant, a lansiwyd yn Chwefror 2005, yn rhoi ymrwymiad i ddileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru erbyn 2020. Dim ond yn ddiweddar iawn y mae'r strategaeth wedi'i datblygu'n gynllun gweithredu ac mae gwaith pellach i'w wneud ar y manylion, ond mae'r cynigion yn cynnwys rhaglenni i fwyhau incwm a lleihau dyled, ysgolion gyrfa ar gyfer y sector cyhoeddus, rhagor o Ganolfannau Plant Integredig, a thargedau ar gyfer y celfyddydau a chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Un o'r camau a gymerwyd eisoes yw darparu £50 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn, am ddwy flynedd, wedi'i dargedu ar blant ifanc iawn yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ('Dechrau'n Deg'). Dros y flwyddyn i ddod, bydd rhaglenni'n cael eu haddasu i wella gwasanaethau prif ffrwd mewn ardaloedd difreintiedig ac i brawfesur holl gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad o safbwynt tlodi plant.

Mae nodau uchelgeisiol i'r cynllun ac mae awgrymiadau y gellid datblygu deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau cydweithrediad gan wasanaethau cyhoeddus.

Beth yw ein pryderon presennol?

- Mae canran y plant yng Nghymru sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster o unrhyw fath wedi gostwng ond mae'r gyfradd ar gyfer bechgyn a merched yng Nghymru yn dal i fod yn uchaf yn y DU, gan fod 7.5% o'r plant yng Nghymru'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster. Mae canran uchel yn gadael yr ysgol heb gael 5 TGAU ar raddau A-C. Mae'r gwelliant o ran cyrhaeddiad wedi aros yn ei unfan.

- Mae addysg ysgol yn costio'n ddrud i deuluoedd (mwy na £900 y plentyn y flwyddyn yn yr ysgol uwchradd) ac yn aml nid yw rhieni llai cefnog yn gallu fforddio hynny.

- Mae anghydraddoldebau mawr o hyd ym maes iechyd, ac mae llawer o'r canlyniadau i blant a phobl ifanc ar eu gwaethaf mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, e.e. gofal deintyddol, beichiogrwydd ymysg rhai yn eu harddegau. Mae'r gwasanaethau iechyd sylfaenol yn waeth hefyd yn llawer o'r ardaloedd hynny, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau rhoi sylw i hynny.

- Er ein bod yn cytuno y dylid rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle y mae llawer o amddifadedd, mae llawer o blant tlawd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig diarffordd, sydd wedi'u hallgáu o weithgareddau, nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd o gynlluniau sydd wedi'u targedu, neu o gynlluniau cyffredinol fel nofio am ddim.

- Cododd cyfradd digartrefedd yng Nghymru rhwng 1999 a 2004 a bu mwy o ddefnydd hefyd o lety gwely a brecwast.

- Mae un o bob tri o bobl Cymru heb fynediad i gar ac mae trafnidiaeth gyhoeddus yn ddrud ac yn aml yn annigonol i ddiwallu anghenion. Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus ym mhob achos yn cysylltu â lleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar adegau a fyddai'n hwyluso cyfranogiad.

- Nid yw'r strategaethau a'r safonau rhagorol a fyddai'n gwella gwasanaethau i blant tlotach (strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol) wedi'u hariannu'n ddigonol.

Argymhellion

Rydym yn cefnogi'r argymhellion yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth yn erbyn Tlodi ymhlith Plant ond, yn ogystal â hynny, rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Ymchwilio i ddulliau o wella sefyllfa plant tlawd mewn ardaloedd gwledig.

- Monitro cynlluniau fel nofio am ddim a brecwast am ddim yn fanwl a gwneud y newidiadau y mae eu hangen i sicrhau bod y plant mwyaf anghenus yn cael budd.

- Lleihau costau addysg, yn enwedig teithiau ysgol a deunyddiau ar gyfer cyrsiau TGAU. Dylid hysbysebu cynlluniau fel grantiau gwisg ysgol yn dda a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau nad yw ei chyllid grant yn cymryd lle neu'n lleihau'r hyn a gynigiwyd o'r blaen gan Awdurdodau Lleol.

- Sicrhau bod yr ardaloedd tlotaf yn cael y gwasanaethau prif ffrwd gorau. Dylid dechrau gwneud hyn drwy addasu rhaglenni, ond rhaid ystyried anghenion mewn ardaloedd difreintiedig bach yng Nghymru wledig.

- Darparu adnoddau cynhwysfawr ar gyfer Strategaethau'r GIG a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

- Rhoi blaenoriaeth i ddiwallu anghenion y teuluoedd tlotaf – rhai ag unig riant, teuluoedd sydd â phlant anabl, teuluoedd mawr gan gynnwys rhai lleiafrifoedd ethnig, sipsiwn-teithwyr a rhieni sydd i mewn ac allan o waith tymhorol.

- Parhau i neilltuo cyllid ar gyfer Cronfa Cymorth.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru